**COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN NEUADD Y SIR AC AR ZOOM DDYDD IAU, 23 CHWEFROR 2023**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir G W Ratcliffe (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir B Baynham, M Beecham, S J Beecham, B Breeze, G Breeze, J Berriman, L Brighouse, A Cartwright, J Charlton, R Church, S Cox, A W Davies, A Davies, B Davies, B Davies, S C Davies, M J Dorrance, D Edwards, J Ewing, L George, J Gibson-Watt, I Harrison, K Healy, P James, A Jenner, A Jones, E A Jones, E Jones, G D Jones, G E Jones, J R Jones, A Kennerley, C Kenyon-Wade, P Lewington, K Lewis, P E Lewis, W Lloyd, I McIntosh, S McNicholas, C Johnson-Wood, G Mitchell, G Morgan, G Morgan, WD Powell, G Preston, J Pugh, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, C Robinson, E Roderick, D Selby, D A Thomas, R G Thomas, J Brignell-Thorp, E Vaughan, C Walsh, A Williams, D H Williams, J M Williams ac S L Williams

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir D Bebb, T Colbert, H Hulme, DW Meredith, G Pugh a J Wilkinson.

| 2. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

| 3. | CYFANSODDIAD - ADRAN 4 – SIARAD AR GYNIGION |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, oedd yn cynnig diwygio'r Cyfansoddiad er mwyn gosod amseroedd siarad ar gyfer cynigwyr, sef pum munud, ac i bawb arall – tri munud. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Beverley Baynham, a gyda 60 o blaid ac 1 yn erbyn

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Diwygio Rheolau 4.47.2, 4.54.8.2 a 4.54.8.4 y Cyfansoddiad ar unwaith i ddarparu amseroedd siarad mewn perthynas â chynnig cynigion, sef pum munud, a thri munud ar gyfer pawb arall (gan gynnwys deiliaid portffolio) ar sail barhaol.**<br>**2. Bod gofyn i Bennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro ddiwygio Adran 4 y Cyfansoddiad i** | **Diwygio'r amser siarad ar gyfer cynigion yn Adran 4 y Cyfansoddiad, yn sgil y treial a gytunwyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2020.** |

| | |
|---|---|
| **adlewyrchu'r penderfyniad yn 1 uchaf, ar y cyfle cyntaf posibl.** | |

| | |
|---|---|
| **4.** | **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG DRAFFT 2023-2028, CYLLIDEB DDRAFFT 2023-24 A RHAGLEN GYFALAF 2023-2028** |

Bu'r Cyngor yn ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig drafft ar gyfer 2023-2028, cyllideb ddrafft 2023-24 a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023-2028. Cynigiwyd y gyllideb gan y Cynghorydd Sir D Thomas, Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol, ac fe'i eiliwyd gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Sir J Gibson-Watt. Wrth gynnig y gyllideb, diolchodd y Cynghorydd Thomas i aelodau am eu cyfraniadau mewn sesiynau briffio ac i'r Pwyllgorau Craffu am eu hadborth. Diolchodd i Grŵp Annibynnol Powys am eu hymgysylltiad, yn enwedig mewn perthynas â'r gronfa o £500,000 ar gyfer ysgolion i gefnogi cynlluniau effeithlonrwydd ynni.

Roedd y cynnig o ran y gyllideb yn cynnwys cyllid ychwanegol gwerth £4.395 miliwn yn uniongyrchol i gyllidebau dirprwyedig ysgolion, sydd, ynghyd â £1.1 miliwn arall ar gyfer y Gwasanaeth Addysg, yn pasbortio'r holl gyllid addysg ychwanegol yn y setliad gan Lywodraeth Cymru i ysgolion. Roedd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol yn cydnabod na fyddai hyn yn bodloni'r holl gostau ychwanegol oedd yn wynebu ysgolion, ac y byddai gofyn i Gyrff Llywodraethu, yn debyg i wasanaethau eraill y cyngor, ystyried sut i reoli'r pwysau hyn, gan gynnwys defnyddio arian wrth gefn.

Eglurodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol bod y gostyngiadau a gynigiwyd yn y gyllideb yn canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon. Ei ddadl oedd nad yw'r Cyngor ar ei wedd gyfredol, yn gynaliadwy a bod y gwaith o ail-ddychmygu sut y gall y Cyngor gyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol wedi cychwyn. Cynigiwyd y cynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor yn sgil ystyriaeth ofalus o ran fforddiadwyedd i drigolion. Roedd yn cynnwys 3.8% i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor ac 1.2% ar gyfer yr Ardoll Tân.

Nododd y Swyddog Adran 151 ei barn, fod yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd yn y cynnig o ran y gyllideb ar gyfer 2023-24 yn ddigon cadarn, ond mae'r lefel risg uwch yn parhau. Ar sail asesiad o'r cronfeydd wrth gefn, roedd y lefel gyffredinol yn ddigonol, ond roedd yn parhau tua gwaelod y lefel o ran bod yn dderbyniol gan ystyried yr her economaidd sy'n parhau a graddfa'r arbedion sydd ei hangen a'r ansicrwydd ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y tymor canolig.

Beirniadwyd y gyllideb gan Arweinydd y Grŵp Ceidwadol a Dirprwy Arweinydd y Grŵp Annibynnol gan ddweud y byddai'n achosi niwed i ysgolion, yn enwedig y rhai heb gronfeydd wrth gefn, a byddai'n arwain at athrawon yn colli swyddi.

Derbyniwyd adborth gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, oedd yn ehangu ar y sylwadau a'r argymhellion a ddosbarthwyd yn y nodiadau fel rhan o'r adroddiad. Diolchodd y cadeiryddion i aelodau eu pwyllgorau a'r Penaethiaid Gwasanaeth am eu hymgysylltiad mor effeithiol gyda'r broses, a nodwyd yr angen ar gyfer craffu parhaus trwy gydol y flwyddyn. Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal am ymatebion i'r cwestiynau ynghylch costau lleoliadau plant ar gyfer

cyfarfod perfformiad ariannol Chwarter 1. Mynegodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau ei bryderon ynghylch cyllidebau ysgolion, a'r diffyg adnoddau oedd yn cael eu dyrannu ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar ysgolion, a all arwain at adeiladau anniogel ac annaddas, fyddai'n golygu bod cyflwr y stoc adeiladau ysgol yn dirywio. Nododd bod y Pwyllgor yn dymuno cael cyfle i graffu ar y gronfa effeithlonrwydd ynni arfaethedig ar gyfer ysgolion. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Economi, Trigolion a Chymunedau fod y Pwyllgor wedi cynnig her gadarn i swyddogion, ac y'u bodlonwyd gan ymatebion y swyddogion a'r camau lliniaru oedd yn bodoli. Mynegodd Cadeirydd y Panel Cyllid ei bryderon o ran y lefel risg uwch yn y gyllideb.

Torrodd y Cyngor am 12.40 pm ac ail-gychwynnwyd y cyfarfod am 1.30 pm.

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir G W Ratcliffe (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir B Baynham, M Beecham, S J Beecham, B Breeze, G Breeze, J Berriman, L Brighouse, A Cartwright, J Charlton, R Church, S Cox, A W Davies, A Davies, B Davies, B Davies, S C Davies, M J Dorrance, D Edwards, J Ewing, L George, J Gibson-Watt, I Harrison, K Healy, P James, A Jenner, A Jones, E A Jones, E Jones, G D Jones, G E Jones, J R Jones, A Kennerley, C Kenyon-Wade, P Lewington, K Lewis, P E Lewis, W Lloyd, I McIntosh, S McNicholas, C Johnson-Wood, G Mitchell, G Morgan, G Morgan, WD Powell, G Preston, J Pugh, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, C Robinson, E Roderick, D Selby, D A Thomas, R G Thomas, J Brignell-Thorp, E Vaughan, C Walsh, A Williams, D H Williams, J M Williams ac S L Williams

Parhaodd y Cyngor gyda'r ddadl ar y gyllideb, gydag aelodau'r Cabinet yn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu a Chynghorwyr.

**Argymhelliad 1**
Gyda 42 o blaid, 14 yn erbyn, a 4 yn atal pleidlais

**PENDERFYNWYD cytuno mewn egwyddor gyda'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023-2028, fel y'i amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad.**

**Argymhelliad 2**
Gyda 41 o blaid, 18 yn erbyn, a 2 yn atal pleidlais

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023-24 gan gynnwys cynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor yn 2023-24 a ddangosir yn y Model Adnoddau Ariannol yn Atodiad B a Thabl 4 yr adroddiad.**

**Argymhelliad 4**
Gyda 43 o blaid, 14 yn erbyn a 3 yn atal pleidlais

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Gofrestr Ffioedd a Thaliadau yn Atodiadau D ac E yr adroddiad.**

Gadawodd y Cynghorydd Sir A Jenner y cyfarfod am 14.19.

**Argymhelliad 3 & 5 – 9**
Gyda 45 o blaid, a 12 yn erbyn

**PENDERFYNWYD y byddai unrhyw gyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn sgil cyhoeddi Setliad Terfynol Llywodraeth Cymru'n cael ei ddefnyddio yn y gyllideb fel y'i bennwyd.**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 2023-28 a ddangosir yn Atodiad H yr adroddiad.**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw fel y'i amlinellwyd yn Atodiad H yr adroddiad.**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol yn Atodiad H yr adroddiad.**

**PENDERFYNWYD gosod y cyfyngiad benthyg awdurdodedig ar gyfer 2023-24 yn unol ag adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol ar £490 miliwn a gosod y Ffin Weithredol ar £476 miliwn fel y'i amlinellwyd yn adran 3.84 yr adroddiad.**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2023-24 fel y'u hamlinellwyd yn adran 3.80 - 3.87 yr adroddiad ac Atodiad H.**

| 5. | CYNLLUN CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL A STRATEGOL (2023-2027) |
|---|---|

Cyflwynwyd Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol newydd y Cyngor: Cryfach, Tecach, Gwyrddach (2023-2027) gan yr Arweinydd, Aelod y Cabinet ar gyfer Cysylltu Powys, a'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet ar gyfer Powys Decach. Mae'r Cynllun yn olrhain yr amcanion llesiant newydd a'r camau gweithredu er mwyn eu gwireddu. Roedd yn cyflwyno tri amcan corfforaethol newydd sy'n greiddiol i'r cynllun:

- Byddwn yn gwella ymwybyddiaeth bobl ynghylch gwasanaethau, a sut i gael mynediad atynt, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau deallus.
- Byddwn yn darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant uchel eu safon a chynaliadwy, a mynd ati i gael statws cyflogwr achrededig Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Byddwn yn gweithio i drechu tlodi ac anghydraddoldeb er mwyn cefnogi llesiant trigolion Powys.

Datblygwyd y cynllun gan ddefnyddio blaenoriaethau partneriaeth flaengar Powys, a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Mai 2022 ac ers hynny, roedd y Cabinet wedi cydweithio gyda chynghorwyr a chydweithwyr ar draws y cyngor i benderfynu ar y cyfeiriad corfforaethol ar gyfer 2023-27. Roedd y cynllun yn gweddu i Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys a Chynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau fod partneriaid yn gweithio tuag at ganlyniadau cyffredin ar gyfer trigolion Powys. Roedd y Cyngor hefyd yn cydweithio gyda

Chyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gynlluniau datblygu strategol a chynlluniau trafnidiaeth.

Byddai cyhoeddi'r cynllun yn sicrhau fod y Cyngor yn bodloni rhwymedigaethau statudol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac y byddai gweithgareddau ac adnoddau'n canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion.

Gadawodd y Cynghorydd Sir L George y cyfarfod am 14.35.

Cynhaliwyd gweithgareddai ymgysylltu ac ymgynghori ym mis Rhagfyr 2022 a chafodd adborth y gweithgareddau hynny eu hystyried ynghyd ag adborth y Pwyllgorau Craffu.

Wrth ymateb i sylwadau mewn perthynas â'r gost o wireddu sero net erbyn 2030, nododd yr Arweinydd y byddai'r gost o beidio gwireddu sero net yn llawer uwch na'r costau o'i wireddu.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir J Berriman gymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol ar gyfer 2023-27, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir M Dorrance a gyda 50 o blaid, 0 yn erbyn, a 7 yn atal pleidlais

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol (fel y'i amlinellir yn Atodiad B yr adroddiad), a'i weithredu o 1af Ebrill 2023 gan ystyried yr argymhellion a nodir yn Atodiad A, a seilir ar weithgareddau ymgysylltu a chraffu.**

**Y Cynghorydd Sir G W Ratcliffe (Cadeirydd)**